

Y CYNGOR

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 13.00 ar 11 HYDREF 2019, yn Ystafell Gyfarfod y Ganolfan Ddelweddu.

Yn bresennol: Dr Emyr Roberts, Cadeirydd y Cyngor (yn y Gadair); Ms Gwerfyl Pierce Jones, Dirprwy Gadeirydd y Cyngor; Yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor; Yr Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyrwyr); Mrs Samantha Blackie; Dr Hazel Davey; Ms Meri Huws; y Gwir Anrhydeddus Elfyn Llwyd; Mr Ian MacEachern; Mr Dhan Ramnatsing, Llywydd UMAber; Ms Fiona Sharp; Ms Kath Williams; Yr Athro Robin Williams; a'r Athro Reyer Zwiggelaar.

Yn gweinyddu: Mr Arthur Dafis, Uwch Swyddog Cyfathrebu; Mr Stephen Forster, Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol; Mrs Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Mr Geraint Pugh, Ysgrifennydd y Brifysgol; a Mr Nick Rogers, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol (ar gyfer cofnod 11.2).

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Mr George Ashworth; Ms Anne Davies; Mr Tomos Ifan, Llywydd UMCA; Mr Richard John; a'r Athro Colin McInnes, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi).

1. MATERION A GODWYD GAN Y CADEIRYDD

1. Croeso

Croesawyd y canlynol i'w cyfarfod cyntaf yn aelodau o'r Cyngor:

1. Meri Huws, Aelod Annibynnol; a
2. Dhan Ramnatsing, Llywydd Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth (UMAber)

2. Cydymdeimlad

Mynegwyd cydymdeimlad yn dilyn marw'r canlynol:

1. Alun Eirug Davies, cyn Ddirprwy Lyfrgellydd;
2. Anna Evans, a oedd wedi bod yn gweithio gyda Chanolfan y Celfyddydau ar brosiectau cymunedol;
3. David Hides, cyn-Bennaeth ar Fridio Planhigion yng Ngogerddan;
4. Yr Athro William Jeremy Jones, cyn-Bennaeth yr Adran Gemeg;
5. Dr C Roy Lewis, cyn-Bennaeth yr Adran Ddaearyddiaeth; a
6. David Metcalfe, cyn-aelod o staff y Swyddfa Gyllid.

3. Diwrnod Encil

1. Cynhaliodd y Cyngor ddiwrnod encil ar bnawn 10 Hydref, a bore'r 11 Hydref 2019. Ar y diwrnod cyntaf canolbwyntiwyd ar ddatblygiadau yn y Brifysgol,

swyddogaeth y Cyngor yng nghyswllt ansawdd academiaidd, a blaenoriaethau pob Cyfadran. Ar yr ail ddiwrnod cafwyd cyfle i roi gwybodaeth i aelodau ynglŷn â champau sy'n cael eu gwneud gan y sefydliad i wella'i gynaliadwyedd amgylcheddol, yn ogystal â'r gwaith i gynhyrchu Strategaeth Ymchwil a pharatoi am y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil.

PENDERFYNWYD

2. Y byddai copïau o'r holl gyflwyniadau'n cael eu rhoi ar SharePoint er mwyn gallu cyfeirio atynt yn y dyfodol (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).
3. Y byddai holiadur cryno'n cael ei ddsbarthu i aelodau er mwyn cael adborth ganddynt am y pynciau a gafodd eu trafod yn y diwrnod encil (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).
4. Cyfarfod anffurfiol o Aelodau Annibynnol

Yn unol â'r Cynllun Gweithredu a ddatblygwyd mewn ymateb i adolygiad 'AdvanceHE' ar Effeithlonrwydd Llywodraethu'r Brifysgol, crynhodd y Cadeirydd y materion a drafodwyd yn y cyfarfod anffurfiol rhwng yr aelodau annibynnol a'r Is-Ganghellor, a gynhaliwyd cyn cyfarfod ffurfiol y Cyngor. Roedd y cwbl yn gysylltiedig ag eitemau i'w trafod yn y cyfarfod ffurfiol a byddent yn cael eu hystyried ymhellach o dan yr eitem briodol ar yr agenda.

2. GWRTHDARO BUDDIANNAU

Mynegodd Ian MacEachern, un o Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn ac Aswariant Prifysgol Aberystwyth (AUPAS), fudd yn yr eitem 'Cyfamod Cyflogwyr AUPAS'. Barnwyd nad oedd angen iddo ymesgusodi yn ystod y drafodaeth ar yr adroddiad hwn.

3. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2019 (COU1920-003).

PENDERFYNWYD

Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Cyngor, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (COU1920-004).

NODWYD

1. Pantycelyn (cofnod 50.1.8)

1. Bu rhai aelodau ar yr ymweliad safle ar 13 Medi 2019 i weld y cynnydd diweddaraf ym Mhantycelyn. Gan fod y prosiect ar hyn o bryd yn datblygu yn brydlon ac o fewn y gyllideb, gofynnodd yr aelodau a oedd unrhyw fudd i barhau i

gynhyrchu adroddiadau cynnydd misol i randdeiliaid. Yn hytrach na hynny, byddai diweddariadau yn gysylltiedig â marchnata'r neuadd ar ei newydd wedd i fyfyrwyr a darpar-fyfyrwyr yn fwy priodol erbyn hyn.

PENDERFYNWYD

2. Dileu'r gweithredu yn gysylltiedig â chofnod 50.1.8: "Y dylai aelodau'r Cyngor dderbyn adroddiadau misol am gynnydd prosiect adnewyddu Pantycelyn..." (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).
2. Y bydd aelodau'r Cyngor yn derbyn adroddiadau ar weithgareddau marchnata Pantycelyn i fyfyrwyr a darpar-fyfyrwyr (**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr Marchnata a Denu Myfyrwyr; a'r Uwch Swyddog Cyfathrebu).
2. Y diweddariadau eraill a ddarparwyd yn y cofnodydd penderfyniadau.

5. PENDERFYNIADAU A WNAED RHWNG CYFARFODYDD

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1920-035).

NODWYD

1. Manylai'r adroddiad ar yr adegau ers cyfarfod diwethaf y Cyngor y cymeradwywyd materion gan aelodau trwy ohebiaeth, neu gan y Cadeirydd ar ran yr aelodau.
2. Y materion a gymeradwywyd gan yr aelodau trwy ohebiaeth oedd:
 1. Polisi ar Ddefnyddio Gwaddolion Grŵp 1;
 2. Penodi'r Athro Colin McInnes yn Ddirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi); a
 3. cynigion am brosiect RE:FIT.
3. Y materion a gymeradwywyd gan y Cadeirydd ar ran y corff llywodraethu oedd:
 1. cyflwyno Cynllun Ffioedd a Mynediad diwygiedig 2020-21 i'r Cyngor Cyllido;
 2. cyflwyno fersiwn pellach diwygiedig o Gynllun Ffioedd a Mynediad 2020-21 i'r Cyngor Cyllido;
 3. cyflwyno Adroddiad Cydymffurfio ac Effeithlonrwydd y Cynllun Ffioedd a Mynediad i'r Cyngor Cyllido;
 4. gwaredu tir ychwanegol er mwyn i ddatblygiad Canolfan Deithio Bow Street symud yn ei flaen; a
 5. penodi Kath Williams yn gynrychiolydd y Cyngor ar Fwrdd Atebolrwydd a Strategaeth y Bartneriaeth Addysg Gychwynnol i Athrawon.

6. GOHEBIAETH

1. Llythyr Adolygu Risg Sefydliadol y Cyngor Cyllido

DERBYNIWYD

Llythyr oddi wrth Brif Weithredwr CCAUC, dyddiedig 25 Medi 2019 (COU1920-005).

NODWYD

1. Ar 25 Medi 2019, anfonodd y Cyngor Cyllido Llythyr Adolygu Risg Sefydliadol 2019 at yr Is-Ganghellor. Roedd y llythyr yn crynhoi canlyniad asesiad Adolygiad Risg Sefydliadol 2018-19 ar y Brifysgol a wnaed gan CCAUC, ac yn nodi'r meysydd y dymunai'r Cyngor Cyllido eu trafod ymhellach â'r sefydliad. Cafodd yr aelodau eu hatgoffa o amod y Cyngor Cyllido y dylai cynnwys y llythyr gael ei gadw'n gyfrinachol.
 2. Ystyriodd yr aelodau gynnwys y llythyr a chawsant wybod y byddai'r Is-Ganghellor yn trafod ymhellach â Chadeirydd a Phrif Weithredwr y Cyngor Cyllido yn eu cyfarfod nesaf.
 3. Roedd y Brifysgol yn awr yn gweithio tuag at ddrafftio diweddariadau ar y mân faterion a godwyd gan y Cyngor Cyllido yn Atodiad B y llythyr. Byddai'r ymatebion arfaethedig yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor cyn eu hanfon i'r Cyngor Cyllido erbyn diwedd mis Hydref 2019 (**GWEITHREDU**: Yr Is-Ganghellor).
2. Ymgynghoriad ar brosesau ymrwymiad sefydliadol y Cyngor Cyllido

DERBYNIWYD

Cylchlythyr W19/30HE CCAUC: "Ymgynghoriad ar ddiwygiadau i brosesau ymrwymiad sefydliadol CCAUC" (COU1920-006).

NODWYD

1. Ar 19 Medi 2019, cyhoeddodd CCAUC gylchlythyr yn gwahodd ymatebion gan sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru ynghylch newidiadau arfaethedig i brosesau ymrwymiad sefydliadol y Cyngor Cyllido.
 2. Roedd y Brifysgol wrthi'n paratoi drafft o'i hymateb i'r Cyngor Cyllido. Byddai copi o'r ymateb yn cael ei rannu ag aelodau'r Cyngor cyn ei gyflwyno (**GWEITHREDU**: Pennaeth Datblygu Strategol).
3. Llythyr oddi wrth Glwb Chwaraeon a Chymdeithasol Staff PA

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol, yn ymgorffori llythyr oddi wrth Gadeirydd Clwb Chwaraeon a Chymdeithasol Staff PA (CCCSPA) (COU1920-007).

NODWYD

1. Ar 02 Hydref 2019, derbyniodd Ysgrifennydd y Brifysgol llythyr oddi wrth Gadeirydd CCCSPA, a chais yn gofyn i'r llythyr gael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Cyngor (Y llythyr hwn oedd y diweddaraf mewn cyfres o gyfathrebiadau rhwng y Brifysgol a CCCSPA ers i Frynamllwg - a ddefnyddiwyd gan y Gymdeithas ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau - gael ei gau ym mis Gorffennaf 2018.

2. Roedd yr adroddiad hefyd yn crynhoi'r cyfathrebiadau a fu rhwng y Brifysgol a'r Gymdeithas, ac roedd yn cynnwys ymateb drafft i'w anfon i CCCSPA ar ran y corff llywodraethu. Cafodd y rhain eu hystyried gan aelodau'r Cyngor ochr yn ochr â'r ohebiaeth a dderbyniwyd.
3. Cafodd aelodau eu sicrhau bod y Weithrediaeth, yn ystod eu cyfathrebu â'r Gymdeithas, wedi cynnig lleoliad eraill yn y Brifysgol y gellid eu defnyddio gan CCCSPA. Cafodd pob awgrym a wnaed hyd yn hyn eu gwrthod.

PENDERFYNWYD

4. Cymeradwyo'r ymateb arfaethedig i'r Gymdeithas (**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol).

7. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Is-Ganghellor (COU1920-008).

NODWYD

1. Roedd pum prif adran i'r adroddiad: adroddiad am uchafbwyntiau; adroddiad cynllunio a denu myfyrwyr; adroddiad ynglŷn â chyfathrebiadau; adroddiad o'r Senedd; ac adroddiad ynghylch grantiau ymchwil.
2. Llongyfarchwyd yr Is-Ganghellor a chydweithwyr ar berfformiad rhagorol arall yn yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr (ACF) 2019, a gyhoeddwyd ar 03 Gorffennaf 2019. Roedd bodlonrwydd cyffredinol ymhlith myfyrwyr y Brifysgol yn awr yn 91%.
3. Hefyd, enwyd y Brifysgol yn Brifysgol y Flwyddyn yng Nghymru am 2020 yng nghanllaw prifysgolion da *The Times / Sunday Times*. Yn y tabl cynghrair penodol hwnnw dringodd y Brifysgol dri phwynt, i safle 45. Llongyfarchwyd yr Is-Ganghellor a chydweithwyr eto ar y cyflawniad hwn.
4. Mewn ymateb i adolygiad 'AdvanceHE' ar Effeithlonrwydd y Llywodraethu yn y Brifysgol, cafodd adran newydd ei chynnwys yn adroddiad yr Is-Ganghellor yn crynhoi trafodaethau cyfarfod diweddaraf y Senedd. Croesawyd hyn gan aelodau'r Cyngor.

8. DIWEDDARIAD IECHYD A DIOGELWCH

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Reolwr Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd (COU1920-009).

NODWYD

Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r manylion diweddaraf ynghylch iechyd a diogelwch. Bydd adroddiad llawnach yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio ar 07 Tachwedd 2019.

9. ADRODDIAD GAN UNDEB MYFYRWYR PRIFYSGOL ABERYSTWYTH

DERBYNIWYD

Adroddiad gan UMAber (COU1920-010).

NODWYD

1. Rhoddai'r adroddiad fanylion diweddaraf y datblygiadau yn UMAber ers cyfarfod diwethaf Cyngor y Brifysgol.
2. Lanswyd 'Prosiect Post Porffor' gan UMAber, yn ymgyrch i annog staff, myfyrwyr a chyn-fyfyrwyr y Brifysgol i lobïo Aelodau Seneddol ledled y Deyrnas Gyfunol [DG] i ofyn am ddiogelu hawl i gymryd rhan yng nghynllun ERASMUS+ ar ôl Brexit. Ers hynny, roedd nifer o undebau myfyrwyr ledled y DG wedi mynegi diddordeb i ymuno â'r ymgyrch.
3. Mynegwyd pryderon yn yr adroddiad am arferion recriwtio un o gyflenwyr y Brifysgol. Oherwydd bod y pryderon wedi'u seilio ar hanesion a straeon ar y cyfryngau cymdeithasol, nid oedd UMAber mewn sefyllfa i godi'r mater yn ffurfiol â'r Brifysgol, a fyddai yn ei thro yn gallu cysylltu â'r cyflenwr dan sylw i holi ymhellach.

10. MATERION ARIANNOL

1. Diweddariad Ariannol

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol, Mark Godsell (COU1920-011).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn crynhoi perfformiad ariannol y Brifysgol ar ddiwedd Chwarter 4 (31 Gorffennaf 2019). Er yn amodol ar y drefn archwilio allanol a oedd yn mynd rhagddi, roedd y brifysgol ar y trywydd i gadw at y diffyg a gynlluniwyd yng nghyllideb 2018-19.
 2. Holodd yr aelodau am statws y buddiannau disgwylidig i brifysgolion yng Nghymru o ganlyniad i'r ffaith fod Llywodraeth Cymru yn gweithredu argymhellion Adolygiad Diamond ynglŷn â chyllido addysg uwch a threfniadau cyllido myfyrwyr. Dywedwyd wrth yr aelodau bod ansicrwydd ynghylch statws buddiannau disgwylidig Diamond.
2. Y Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol; Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol; Y Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol Mark Godsell; a'r Cyfrifydd Rheolaethol, Mark Davies (COU1920-012).

NODWYD

Rhoddai'r adroddiad fanylion diweddaraf ynglŷn â'r arbedion a wnaed hyd yn hyn yng nghyswllt targedau'r CGC; crynodeb o'r achosion busnes a gwblhawyd hyd yn hyn; a'r camau sy'n cael eu cymryd i leddfu effeithiau unrhyw gwtogiad incwm pellach.

3. Cyfamod Cyflogwr Cynllun Pensiwn ac Aswiriant PA (CPAPA)

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfrifydd Ariannol Dros dro Alan Graham (COU1920-013).

NODWYD

1. O dan Ddeddf Pensiynau 2004, rhaid i Ymddiriedolwyr CPAPA adrodd i'r Rheoleiddiwr Pensiynau ynglŷn â chadernid y cyfamod cyflogwyr yn dilyn pob gwerthusiad tair blynedd (gwnaed y diweddaraf o'r rhain ar 01 Awst 2017 a'i gyhoeddi ar 16 Hydref 2018), ac yn amlach na hynny os yw amgylchiadau'n mynnu.
2. Nodai'r adroddiad y prif ystyriaethau, a oedd yn cadarnhau mai swyddogaeth y Brifysgol oedd cefnogi ymddiriedolwyr CPAPA, a thanysgrifennu unrhyw ddiffyg yn y cynllun. Ychydig iawn o newid a fu yn sefyllfa ariannol y cynllun ers y gwerthusiad tair blynedd diwethaf.
3. Cafodd yr adroddiad ei ystyried gan y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad ar 26 Medi 2019 lle'r oedd yr aelodau wedi cadarnhau'r ymateb arfaethedig fel cyflogwr.

PENDERFYNWYD

4. Fel cyflogwr, (**GWEITHREDU:** Y Cyfrifydd Ariannol Dros dro Alan Graham):
 1. i gytuno'n ffurfiol i barhau i danysgrifennu unrhyw ddiffyg yn CPAPA i gefnogi'r asesiad o gadernid y cyfamod cyflogwyr; a
 2. i gefnogi adolygiad annibynnol o gadernid y cyfamod cyflogwyr, pe dymunai Ymddiriedolwyr y Cynllun gomisiynu adolygiad annibynnol o'r fath.

11. MATERION STRATEGOL

1. Cynllun Strategol 2018-23 Dangosyddion Perfformiad Allweddol

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio (COU1920-014).

NODWYD

Cyflwynai'r adroddiad bwyntiau data cyfredol yng nghyswllt y Dangosyddion Perfformiad Allweddol y cytunodd y Cyngor arnynt ar gyfer monitro cynnydd wrth gyflawni Cynllun Strategol y sefydliad.

2. Strategaeth Pobl

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol, yn ymgorffori Strategaeth ddrafft (COU1920-015).

NODWYD

1. Cafodd Strategaeth Pobl un dudalen ei drafftio i'w hystyried, wedi'i hategu gan ddiagram yn amlinellu sut yr oedd yr ymddygiad a ddymunir yn ategu'r gwerthoedd a welir yng Nghynllun Strategol 2018-2023. Paratowyd dogfen arall

hefyd yn amlinellu'r berthynas rhwng drafft y Strategaeth Pobl a Chynllun Strategol y sefydliad 2018-2023, a sut y byddai'r ddwy ddogfen yn tywys amcanion yr adran Adnoddau Dynol am 2019-22.

2. Ystyriwyd drafft y Strategaeth gan y Pwyllgor LI&Ch ar 26 Medi 2019 lle'r argymhellodd yr aelodau y dylai'r Cyngor ei gymeradwyo, yn amodol ar ei ddiwygio i gynnwys yr adborth a roddwyd gan aelodau'r Pwyllgor LI&Ch yn y cyfarfod hwnnw.

PENDERFYNWYD

3. Cymeradwyo'r Strategaeth Pobl arfaethedig (**GWEITHREDU**: Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol).

3. Datblygu a Chysylltiadau Alumni

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Gyfarwyddwr Datblygu a Chysylltiadau Alumni, yn ymgorffori drafft y Strategaeth Datblygu a Chysylltiadau Alumni 2019-23 a chynllun gweithredu cysylltiedig am 2019-20 (COU1920-016).

NODWYD

1. Yng nghyfarfod y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad (A&Ph) ar 23 Mai 2019, ystyriodd yr aelodau ddrafft y Strategaeth Datblygu a Chysylltiadau Alumni, a gofyn iddo gael ei ailgyflwyno i'r Pwyllgor ochr yn ochr â chynllun gweithredol arfaethedig.
2. Felly, cyflwynwyd Strategaeth ddrafft a chynllun gweithredu newydd i'w ystyried gan y Pwyllgor A&Ph ar 26 Medi 2019. Yn y cyfarfod hwnnw, cadarnhawyd y ddwy ddogfen gan yr aelodau.

PENDERFYNWYD

3. Cymeradwyo'r Strategaeth Datblygu a Chysylltiadau Alumni 2019-23 a chynllun gweithredu cysylltiedig am 2019-20 (**GWEITHREDU**: Cyfarwyddwr Datblygu a Chysylltiadau Alumni).

4. Strategaeth Ffermydd

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Athro ym maes Gwyddor Da Byw, yn ymgorffori drafft Strategaeth Ffermydd 2019-22 (COU1920-017).

NODWYD

1. Ar 08 Chwefror 2019, ystyriodd y Cyngor adroddiad ar y cynllun ariannol a gytunwyd gan Weithrediaeth y Brifysgol ar gyfer gweithrediad cynaliadwy ffermydd y Brifysgol yn y dyfodol. Fel y cytunwyd yn y cyfarfod hwnnw, cafodd strategaeth gynhwysfawr i'r ffermydd ei chynhyrchu ers hynny ac roedd yn cael ei chyflwyno i'w chymeradwyo.

2. Trafodwyd y strategaeth yn fanwl gan yr aelodau. Er mai gweithgareddau dysgu ac addysgu oedd prif elfennau'r Strategaeth, ystyriwyd ei bod yn bwysig sicrhau bod unrhyw weithgaredd eilaidd yn cael ei gyflawni mewn dull mor fasnachol â phosibl er mwyn cyfrannu at weithrediadau cynaliadwy.
3. Ystyriwyd drafft y Strategaeth gan y Pwyllgor A&Ph ar 26 Medi 2019 lle'r argymhellodd yr aelodau y dylai'r Cyngor ei gymeradwyo.

PENDERFYNWYD

4. Cymeradwyo'r Strategaeth Ffermydd arfaethedig am 2019-22, yn amodol ar ddileu un frawddeg yn y Strategaeth (**GWEITHREDU**: Athro ym maes Gwyddor Da Byw).

12. MEDDYGAETH FILFEDDYGOL

Cafodd adroddiad COU1920-018 ei dynnu'n ôl a byddai'n cael ei ailgyflwyno yn y cylch cyfarfodydd nesaf (**GWEITHREDU**: Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyriwr)).

13. DIRPRWY GADEIRYDD Y CYNGOR

NODWYD

Ar 31 Rhagfyr 2019, bydd Gwerfyl Pierce Jones, Dirprwy Gadeirydd y Cyngor, yn dod i ben ei chyfnod ar y corff llywodraethu. Yn unol ag Ordinhad 6, gwahoddwyd mynegiant o ddiddordeb gan aelodau annibynnol y Cyngor ddiwedd mis Awst 2019, er mwyn penodi Dirprwy Gadeirydd newydd. Derbyniwyd un mynegiant o ddiddordeb.

PENDERFYNWYD

Penodi'n ffurfiol y Gwir Anrhydeddus Elfyn Llwyd yn Ddirprwy Gadeirydd y Cyngor am y cyfnod o 01 Ionawr 2020 tan 31 Gorffennaf 2021 (**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol).

14. CYDBERCHNOGAETH / PENNU PATENT PRIFYSGOL ABERYSTWYTH YN Y DYFODOL I ARCITEKBIO LIMITED

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Bennaeth Dros Dro Ymchwil, Busnes ac Arloesi (COU1920-019).

NODWYD

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno cydberchnogaeth arfaethedig ac yn y pen draw drosglwyddiad patent o eiddo'r Brifysgol i'r cwmni deillio, ArcitekBio Ltd. Ystyriwyd drafft y cynnig gan y Pwyllgor A&Ph ar 26 Medi 2019 lle'r argymhellodd yr aelodau y dylai'r Cyngor ei gymeradwyo.

PENDERFYNWYD

Cymeradwyo'r gydberchnogaeth a'r trosglwyddiad arfaethedig o batent y Brifysgol i ArcitekBio Ltd (**GWEITHREDU**: Pennaeth Dros Dro Ymchwil, Busnes ac Arloesi).

15. GWEITHGOR CYNLLUN FFI OEDD A MYNEDIAD

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol, yn cynnwys cylch gorchwyl ar gyfer Gweithgor y Cynllun Ffioedd a Mynediad (COU1920-020).

NODWYD

1. Roedd cyfathrebiadau diweddar â'r Cyngor Cyllido wedi nodi bod angen trefn gadarnach yn y Brifysgol fel y gall y corff llywodraethu ddangos cydymffurfiaeth ag elfen Cynllun Ffioedd a Mynediad Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015.
2. Er mwyn sicrhau bod gan y Brifysgol y prosesau priodol yn eu lle i wneud hyn, roedd Gweithgor newydd Cynllun Ffioedd a Mynediad yn cael ei gynnig, a fyddai'n cynnwys aelodau o amrywiol etholaethau sy'n gwasanaethu'r Cyngor.
3. Ystyriwyd drafft y Cylch Gorchwyl gan y Pwyllgor LI&Ch ar 26 Medi 2019 lle'r argymhellodd yr aelodau y dylai'r Cyngor ei gymeradwyo.

PENDERFYNWYD

4. Sefydlu'r Gweithgor a gynigiwyd i'r Cynllun Ffioedd a Mynediad, a phenodi'r Athro Robin Williams a'r Athro Reyer Zwigelaar i wasanaethu yn aelod Annibynnol ac aelod o'r Senedd yn y drefn honno ar y Gweithgor (**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol).

16. DATGANIAD A MATRICS ARCHWAETH RISG

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Bennaeth Datblygu Strategol (COU1920-021).

NODWYD

1. Yn unol â Pholisi'r Brifysgol ar Reoli Risg, gwahoddir y Cyngor i adolygu'r Datganiad a'r Matrics Archwaeth Risg yn ei gyfarfod llawn cyntaf bob blwyddyn academiaidd. Ar hyn o bryd, nid oedd y Brifysgol yn cynnig unrhyw ddiwygiadau i'w Datganiad a Matrics Archwaeth Risg.
2. Cafodd yr adroddiad ei ystyried a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd ar 27 Medi 2019.

PENDERFYNWYD

3. Cadw'r Datganiad a'r Matrics Archwaeth Risg fel y mae ar hyn o bryd (**GWEITHREDU**: Pennaeth Datblygu Strategol).

17. ORDINHADAU

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1920-022).

NODWYD

1. Yn dilyn adolygiad mewnol gan yr adran Adnoddau Dynol o brosesau yn gysylltiedig â phenodiadau Ymweld, Anrhydeddus ac Emeritws, cynigiwyd diwygiadau i ddau Ordinhad, sef:
 1. Ordinhad 24: Penodi Staff er Anrhydedd a Staff Ymweld; a
 2. Ordinhad 25: Rhoddi'r teitlau Athro Emeritws, Darllenydd Emeritws, Uwch Ddarlithydd Emeritws, a Darlithydd Emeritws.
2. Cafodd y diwygiadau a gynigiwyd, yn ogystal â sail resymegol y newidiadau, eu hystyried a'u cadarnhau gan y Pwyllgor LI&Ch ar 26 Medi 2019.

PENDERFYNWYD

3. Cymeradwyo'r diwygiadau a gynigiwyd i Ordinhadau 24 a 25 (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

18. PENODIADAU I'R CYNGOR A'I IS-BWYLLGORAU

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1920-023).

NODWYD

1. Roedd nifer o leoedd ar gael ar hyn o bryd, neu ar fin dod yn rhydd, i wasanaethu ar y Cyngor a / neu is-bwyllgorau'r corff llywodraethu. Roedd yr adroddiad yn cyflwyno cyfres o argymhellion ynglŷn â llenwi'r lleoedd hyn, rhai ohonynt yn golygu y byddai'n rhaid i unigolion newid eu haelodaeth gyfredol ar is-bwyllgorau.
2. Ystyriwyd y penodiadau arfaethedig gan y Pwyllgor LI&Ch ar 26 Medi 2019 lle'r argymhellodd yr aelodau y dylai'r Cyngor ei gymeradwyo.

PENDERFYNWYD

2. Cymeradwyo'r penodiadau arfaethedig (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

19. EITEMAU ER GWYBODAETH

DERBYNIWYD

Derbyniodd aelodau adroddiadau ar y canlynol er gwybodaeth:

1. Crynodeb o'r Gofrestr Risg Corfforaethol (COU1920-024);
2. Dogfennau wedi'u selio â'r Sêl Gyffredin (COU1920-025);
3. Adroddiad Blynyddol ar gyfrifoldebau aelodau'r Cyngor (COU1920-026).

NODWYD

4. Cynnwys yr adroddiadau a gyflwynwyd er gwybodaeth.

20. ADRODDIADAU O IS-BWYLLGORAU

DERBYNIWYD

Adroddiad cyfansawdd yn cynnwys y canlynol (COU1920-027):

1. Y Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio (26 Medi 2019);
2. Y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad (26 Medi 2019);
3. Y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (27 Medi 2019); a
4. Y Senedd (02 Hydref 2019).

NODWYD

5. Y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad (26 Medi 2019)

Wrth ystyried diweddariad cryno ynglŷn â chodi arian i Brosiect yr Hen Goleg, roedd aelodau'r Pwyllgor A&Ph wedi gofyn ar i amcangyfrifon diwygiedig gael eu paratoi o gost y prosiect a'r bwlch cyllido i gynnwys y sefyllfa TAW tebygol, ac i'r rheiny gael eu rhannu â'r corff llywodraethu. Ers hynny, cafodd yr wybodaeth ei dosbarthu i aelodau'r Cyngor (COU1920-037) ac fe'i trafodwyd gan yr aelodau.

6. Y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (AR&S) (27 Medi 2019); a

Mewn ymateb i ddigwyddiad yn ystod yr haf, roedd aelodau'r Pwyllgor AR&S wedi cael adroddiad canfod ffeithiau gan yr archwilwyr mewnol. Bydd copi o ymateb y rheolwyr nawr yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor LI&Ch er mwyn i'r aelodau gael trafod elfennau o'r ymateb hwnnw o fewn i faes y pwyllgor hwnnw.

7. Yr adroddiadau eraill a dderbyniwyd o'r is-bwyllgorau.